



**Tystiolaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru  
i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad ar y  
Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)**

1. Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yr wyf yn ymchwilio i gwynion gan aelodau o'r cyhoedd eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder drwy gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth ar ran corff o fewn fy awdurdodaeth. Fel y cyfryw, mae gennyf bersbectif unigryw ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, wedi ei llywio gan farn aelodau o'r cyhoedd sydd wedi bod yn anfodlon â'r gwasanaeth a gawsant. Lle mae achosion yn datgelu gwersi ehangach, mae'n bwysig bod y rhain yn cael eu cyfathrebu fel y gellir gwella darpariaeth gwasanaeth a lleihau anfodlonrwydd yn y dyfodol.
2. Yr wyf yn croesawu'r cyfle i ddarparu tystiolaeth mewn perthynas ag ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i mewn i egwyddorion cyffredinol y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru).
3. Yn fy rôl fel Ombwdsmon, ni fyddai'n briodol imi gynnig sylwadau ar y mwyafrif helaeth o gynnwys y Bil. Fodd bynnag, y mae yna un elfen benodol yr wyf yn dymuno rhoi sylwad arno gan y bydd yn cael effaith uniongyrchol ar fy swyddfa, a dyna'r bwriad i ddod ag Awdurdod Cyllid Cymru fel corff o fewn awdurdodaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
4. Mae fy staff a minnau wedi bod yn trafod y mater hwn gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Gallaf gadarnhau i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad fy mod yn fodlon ar, ac yn wir yn croesawu'r cynnig hwn. Mae'n gyson â'r agwedd o ddod â phob corff cyhoeddus datganoledig o fewn awdurdodaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Ar sail profiad yr Ombwdsmon Seneddol, sydd hyd yn hyn wedi bod gyfrifol am edrych ar gwynion o'r math hwn, nid wyf yn rhagweld y bydd effaith sylweddol o ran adnoddau ar fy swyddfa.

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru  
Medi 2015**

\*\*\*\*\*